


# Canllaw Defnyddiwr i Gael Mynediad at Apwyntiadau a Gwasanaethau Presgripsiwn ym Meddygfa Llansamlet

Y mae PEDAIR ffordd i gysylltu â gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, codi ymholiad neu archebu presgripsiwn. Y ffordd fwya hawdd yw edrych ar ein gwefan lle, ar waelod y tudalen, byddwch yn dod o hyd i ddolenni i wasanaethau eraill, er enghraifft gwasanaethau iechyd meddwl, gofal y llygaid, podiatreg, rhoi'r gorau i ysmygu, cefnogaeth cyffuriau ac alcohol ac ati. Ein gwefan yw:

**www.llansamletsurgery.co.uk**







Os oes gennych chi, neu rywun yr ydych yn gofalu amdano fe/ amdani hi, anawsterau cyfathrebu (er enghraifft os oes gennych chi anawsterau clywed neu siarad, neu os nad Saesneg yw eich iaith gyntaf, neu os nad oes gennych chi ffôn neu gyfrifiadur), gadewch inni wybod os gwelwch yn dda am y ffordd orau y gallwn ni gysylltu â chi, gan gysylltu â ni ar y cyfeiriad sydd ar waelod y canllaw hwn neu gan roi gwybod i'r derbynnydd ar y ddesg yn y feddygfa (neu gan bwyso'r drws yn ystod y pandemig COVID). Fel arall, gallwch chi ofyn i rywun arall gysylltu â ni ar eich rhan gan ddefnyddio'r canllaw isod.

Y bedair ffordd yw:

1. **Ffôn:** apwyntiadau, canlyniadau profion, ymweliadau â'r cartref ac ymholiadau cyffredinol**.**
2. **Engage Consult:** apwyntiadau, presgripsiynau, tystysgrifau salwch ac ymholiadau cyffredinol.
3. **My Health Online (MHOL):** apwyntiadau, tystysgrifau salwch a phresgripsiynau.
4. **Presgripsiynau:** 5 ffordd i archebu …. gweler isod.

## 1. Ffonio ni ar 01792 771465

Gallwch chi ofyn am apwyntiad ar yr un dydd gyda meddyg, nyrs, 'advanced nurse practitioner' neu arbenigwr 'musculoskeletal'. Hefyd y mae opsiwn am ymholiadau cyffredinol ac opsiwn er mwyn cael canlyniadau profion. Ar y ffôn yr ydych yn gallu dewis opsiynau Cymraeg neu Saesneg. Y mae'r opsiynau wedi'u rhestru isod a hefyd manylion pellach:

**Opsiwn 1:** gofyn am gymorth gyda phroblem feddygol (argyfyngau: opsiwn 9 pan fo pob apwyntiad yn llawn)

**Opsiwn 2:** apwyntiadau gyda nyrs (ar agor o 09:00)

**Opsiwn 3:** canlyniadau profion (ar agor o 15:30)

**Opsiwn 4:** ceisiadau am ymweliad â'r cartref (cyn 11:00)

**Opsiwn 5:** ymholiadau cyffredinol (ar agor o 09:00)

**Pwyswch opsiwn 1** er mwyn gofyn am gysylltiad â meddyg, 'advanced nurse practitioner' neu arbenigwr 'musculoskeletal'. Byddwch yn siarad â'r derbynnydd a bydd meddyg uwch yn edrych ar bob cais cyn ei roi i'r person priodol. Efallai byddwch yn cael apwyntiad wyneb i wyneb neu alwad ffôn yn ôl gan arbenigwr iechyd proffesiynol, yn amodol ar angen ac os oes rhywun ar gael. Os ydych yn derbyn galwad ffôn, efallai bydd yr arbenigwr proffesiynol yn gofyn i chi ddod i'r feddygfa os oes angen apwyntiad wyneb yn wyneb arnoch chi. Pan fyddwch chi'n siarad â'r derbynnydd, rhowch reswm byr dros yr alwad er mwyn prosesu'r cais yn briodol ac os oes angen, rhowch amser a ffefrir ar gyfer derbyn yr alwad ffôn. Bydd y derbynnydd yn ateb eich cais am alwad ffôn yn ôl rhwng 08:00 a 10:30 y bore a rhwng 14:00 a 15:30 y prynhawn yn unig. Unwaith y mae pob apwyntiad bore neu brynhawn yn llawn bydd y system ffôn ar gau a byddwch yn clywed y neges "yn anffodus mae ein hapwyntiadau galw'n ôl nawr yn llawn". Y mae'r neges wedyn yn dweud "mewn argyfwng fydd yn bygwth bywyd, **pwyswch 9**". Bydd y derbynnydd yn ateb eich galwad a gofyn am fanylion yr argyfwng. Bydd y meddyg sydd ar alwad yn edrych ar eich cais trwy system 'triage'.

**Pwyswch 2** er mwyn cael apwyntiad gyda nyrs y feddygfa (ar gael o 09:00 yn unig)

**Pwyswch 3** am ganlyniadau profion (ar gael ar ôl 15:30 yn unig)

**Pwyswch 4** am ymweliad â'r tŷ (ffoniwch cyn 11:00. Y mae ymweliadau â'r tŷ ar gyfer cleifion sy'n gaeth i'r tŷ yn unig. Nid yw problem drafnidiaeth yn rheswm derbyniol dros ofyn am ymweliad â'r tŷ)

**Pwyswch 5** am ymholiadau cyffredinol (ar gael o 09:00 yn unig)

## 2. Engage Consult

Edrychwch ar ein gwefan er mwyn cofrestru gyda'r gwasanaeth hwn ac er mwyn arolygu y Canllawiau Defnyddiwr perthnasol. Y mae 'Engage Consult' yn addas ar gyfer ceisiadau meddygol i gael cysylltiad â meddyg, 'advanced nurse practitioner' neu arbenigwr 'musculoskeletal', gofyn am bresgripsiwn (gweler y cyngor isod) ac ymholiadau gan gynnwys tystysgrifau salwch. Nid yw 'Engage Consult' yn addas ar gyfer problemau meddygol brys neu argyfwng. Ffoniwch fel uchod ar gyfer argyfwng meddygol. Y mae'r system newydd hon yn caniatáu cyfathrebu dwy ffordd a rhannu dogfennau a lluniau os oes eisiau, yn ogystal ag apwyntiad fideo. Gallwch chi wneud ceisiadau meddygol ar-lein, ar y ffôn neu efallai gofynnir i chi ddod i'r feddygfa os oes angen apwyntiad wyneb yn wyneb arnoch chi. **(Sylwch nid ydym yn nodi**

**apwyntiadau nyrs ar 'Engage Consult' hyd yn hyn. Defnyddiwch y system ffôn am hyn a phwyswch opsiwn 2, fel uchod.)** Yr ydym yn treialu'r gwasanaeth ar hyn o bryd, felly y mae argaeledd yn gyfyngedig. Bydd gwybodaeth ar y wefan 'Engage Consult' pan fydd pob apwyntiad meddygol yn llawn. Sut bynnag gallwch chi wneud ymholiadau am bresgripsiynau ac ymholiadau gweinyddol eraill. Peidiwch â defnyddio'r opsiynau presgripsiwn a gweinyddiaeth os gwelwch yn dda am ymholiadau meddygol pan fod pob apwyntiad yn llawn, er ein bod yn deall y rhwystredigaeth y mae hyn yn ei achosi. Ni fyddwch yn cael apwyntaid ar ôl gwneud ymholiadau fel hyn. Y mae 'Engage Consult' ar gael o 00:00 – 12:30 Dydd Llun i Ddydd Gwener.

### 3. My Health Online (MHOL)

Edrychwch ar ein gwefan er mwyn cofrestru. Y mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer ail-archebu presgripsiynau, am dystysgrifau salwch ac i ofyn am gysylltiad â meddyg, 'advanced nurse practitioner' neu arbenigwr 'musculoskeletal' ar y dydd canlynol. Y mae 12 apwyntiad fel hyn yn unig bob dydd. Nid yw MHOL yn caniatáu cyfathrebu dwy ffordd na lanlwytho lluniau ac felly 'Engage Consult' yw'r opsiwn a ffefrir am geisiadau meddygol.

### 4. Ail-archebu Presgripsiynau yn unig

Meddyg yn unig sy'n gallu rhoi caniatâd i ail-archebu presgripsiwn. Bydd moddion fel arfer yn dod mewn swm digonol am 28 diwrnod.

Yn achlysurol byddwch yn cael eich gwahodd i arolygiad meddyginiaeth neu i apwyntiad er mwyn gwirio eich pwysedd gwaed neu brawf gwaed.

Sylwch os gwelwch yn dda bod angen **72 awr** arnom ni er mwyn ail-archebu eich presgripsiwn. Yn unol â chanllawiau'r Bwrdd Iechyd, ni fyddwn yn rhoi i chi fwy nag 1 mis of feddyginiaeth.

## 5 FFORDD I ARCHEBU:

**1) Y FFERYLLFA:** y mae eich fferyllfa leol yn gallu archebu ar eich rhan a byddant yn dosbarthu'r feddyginiaeth yn uniongyrchol i chi

Y mae'r fferyllfeydd canlynol yn cynnig y gwasanaeth hwn:

- ***Boots:*** ***Parc Manwerthu Morfa***
- ***Boots:*** ***Treforys***
- ***Hanfords:*** ***Llansamlet***

**2) MY HEALTH ONLINE:** gallwch chi archebu gan ddefnyddio'r gwasanaeth My Health Online sydd ar gael 24 awr y dydd

**www.myhealthonline-inps2.wales.nhs.uk/login**.

Er mwyn cofrestru am gyfrif ar-lein dilynwch y cyfarwyddiadau ar y ddolen isod: ***How to register for My Health Online***

**3) LLINELL FFÔN AM BRESGRIPSIYNAU:** gallwch chi ffonio ein **llinell bresgripsiwn COVID 19** newydd:

09.00 – 12.00 *(Nid oes llinell bresgripsiwn yn y prynhawn)*

**01792 762972**

**4) E-BOST: prescriptions.w98005@wales.nhs.uk**

Yr ydym yn gallu derbyn ceisiadau am bresgripsiynau ar y cyfeiriad e-bost uchod, cyhyd â'ch bod yn dilyn pob cam isod:

- Ticiwch yr eitemau sydd eu hangen ar eich taflen ail-archebu presgripsiwn, wedyn tynnwch lun ohoni – y mae rhaid inni gael llun er mwyn prosesu'r cais
- Atodwch y llun(iau) i e-bost – delwedd o faint canolig
- Rhowch enw'r fferyllfa yr ydych am inni ddanfon eich presgripsiwn iddi
- Rhowch rif ffôn inni y gallwn ei ddefnyddio am unrhyw ymholiad

**5) ENGAGE CONSULT:** Y mae ceisiadau am bresgripsiynau ar gael hefyd trwy ein gwasanaeth ymgynghori ar-lein, Engage Consult.

- Cofrestrwch am Engage Consult (naill ai gyda chyfeiriad mewngofnodi GIG neu gyfeiriad mewngofnodi Engage Consult)
- Ar ôl cofrestru, dewiswch y person yr hoffech gael cymorth iddo / iddi – efallai eich hunan, neu rywun yr ydych yn gofalu amdano/amdani (os ydyn nhw ar eich cyfrif Engage Consult yn barod)
- Dewiswch naill ai **'Repeat Prescriptions'** ac wedyn ewch i My Health Online, neu ddewiswch **'Request Help from Surgery'** er mwyn parhau trwy Engage Consult
- Ar ôl arwyddo'r datganiad a chadarnhau eich rhif ffôn, dewiswch **'Administrative Query or Question'**
- Cliciwch ar **'Prescription Requests'** ac wedyn **'Prescription Request'**
- Yma gallwch chi wneud cais am ail-archebu eitem neu rywbeth yr ydych yn ei ddefnyddio'n achlysurol (e.e. triniaeth am eczema). Yma gallwch chi lanlwytho ffeiliau gyda gwybodaeth ychwanegol arnynt (e.e. lluniau o'ch meddyginiaeth flaenorol neu luniau o bresgripsiynau yr ydych wedi'u cael gan wasanaeth arall)
- Cyflwynwch eich cais a byddwch yn derbyn ateb o fewn 24 awr fydd yn cadarnhau os fydd eich cais yn cael ei brosesu.